# Ysgol Gyfun Gwynllyw

Newyddlen 5 // Newsletter 5

Mai 2018 //May 2018

## Gair gan y Pennaeth // A note from the Head

O'r diwedd daeth haul ar y bryn yma yng Ngwynllyw a braf yw gweld y disgyblion yn mwynhau bod tu allan ar ôl rhewi yn ystod y misoedd diwethaf. Wrth gwrs mae'r tywydd poeth yn dod ar ddechrau'r tymor arholiadau allanol ac fe fyddwn cyn hir ynffarwelio gyda Blwyddyn 11 & 13 a ddylai erbyn hyn, ynghyd â Blwyddyn 10 & 12, fod yn adolygu'n drwyadl go gyfer â'u haroliadau. Rwyf yn dymuno'n dda iddyn nhw i gyd yn y gorchwyl hwn ac yn eu llwybrau gyrfa boed iddyn nhw fod yn dychwelyd yma i Wynllyw, neu fynychu'r coleg, Prifysgol neu fyd gwaith. Yn y cyfamser mae gweddill yr ysgol wedi dechrau ar y gwaith o baratoi ar gyfe rein cynhyrchiad diwedd blwyddyn o 'Dal Sownd'. Mae'r prif rannau wedi bod yn ymarfer, yr Adran Gelf wedi dechrau ar y gwaith o gynllunio gwisgoedd, yr adran Gerdd yn brysur yn dysgu caneuon newydd a'r pwyllgor codi arian yn gweithio'n galed i godi arian ar gyfer y cynhyrchiad. Yn yr wythnosau sydd i ddod byddwn yn cynnal gweithgareddau codi arian yn yr ysgol ac yn cysylltu gyad busnesau lleol er mwyn gofyn am nawdd. Felly os hoffech ein noddi cysylltwch gyda'r ysgol

Mae'r rhifyn hwn o'r newyddlen yn llawn dop o'r holl weithgareddau amrywiol mae'n disgyblion wedi bod yn gwneud yn ystod y misoedd diwethf. Gobeithio y gwnewch fwynhau ei ddarllen.

We have finally enjoyed some spring sunshine here at Gwynllyw and of course this heralds the start of the examination season. We will therefore be saying farewell before long to Year 11 and 13 who should, along with Year 12 & 10 be revising thoroughly for their respective exams.  I wish them all the success in their studies and in their future career paths be it coming back here to Gwynllyw, moving on to college or University or into the world of work and apprentiships.

Meanwhile the rest of the school is gearing up for our end of Year production 'Dal Sownd' which is a Welsh Language adaptation of 'Hairspray'. The main characters have been practising, the Art Department have started work on the costumes, the music department are busy teaching the new songs and the fund raising committee is working hard trying to raise funds for the production. In the coming weeks therefore we will be holding fundraising activities in school and contacting local businesses for sponsorship. If you would like to sponsor us or make a donation, please contact the school.

This edition of the newsletter is packed with all the varied and exciting things our pupils have been up to in the past few months. I hope you enjoy reading it.

# Ysgol Gyfun Gwynllyw

Newyddlen 5 // Newsletter 5

Mai 2018 //May 2018

## Gair gan Pennaeth cynnydd Blwyddyn 7

Mae'r wythnosau diwethaf wedi bod yn rhai prysur gyda nosweithiau pontio yn cael eu cynnal. Cyflwynwyd gwybodaeth pwysig ynghylch gwisg ysgol a chyngor cyffredinol am y daith i Wynllyw. Croesawyd Bl 6 hefyd i'r ysgol am Helfa Drysor a oedd yn llwyddiant mawr. Mae'n braf cael nodi bod nifer o unigolion wedi bod yn brysur ym myd Chwaraeon gyda Dewi Rosser yn gwneud yn dda yn y nofio a Cole Lewis ar y trampolin. Mae llawer o Fl 7 yn cyfrannu i'r cynhyrchid Dal Sownd. Mae rhai wedi dangos eu talentau perfformio gyda Heti Cox wedi bod ar lwyfan y Borough yn y Fenni a rhai yn Eisteddfod yr Urdd a'r Fenni.

The recent weeks have been very busy with visits to the primary feeder schools. Important information was presented regarding the school uniform and other useful advice that will ensure that pupils will settle in quickly in future.
We welcomed Year 6 for a successful treasure hunt.
Many individuals have performed to a high standard recently including Dewi Rosser in the swimming pool and Cole Lewis on the trampoline.
Members of Year 7 are in the Welsh version of Hairspray production - Dal Sownd!
Hetti Cox has performed on the Abergavenny Borough stage and others in the Urdd and the Fenni eisteddfod.

## Gair gan Pennaeth cynnydd Blwyddyn 8

Cafodd disgyblion MATh y flwyddyn gyfle i fynychu Taith STEM i gampws Pencoed. Mae grwpiau o ddisgyblion y flwyddyn yn mynychu prosiectau Skills Force a Changing Gears.

Bydd cyfle i ddisgyblion blwyddyn 8 fynychu taith breswyl i Dresaith dros dymor yr haf. Bydd yn gyfle i'r disgyblion gymdeithasu a defnyddio'r iaith Gymraeg ti allan i ffiniau'r ysgol.

Mae'r ysgol yn cyflwyno cynllun gwobrwyo newydd trwy ddefnyddio Class Charts. Dros amser bydd yn bosib i rieni ddefnyddio'r ap er mwyn tracio gwaith cartref ac ymdrech y disgyblion. Blwyddyn 8 bydd yn treialu'r cynllun gwobrwyo newydd.

MAT pupils had the opportunity to go on the STEM visit held on the Pencoed campus. There are also groups of pupils participating in the Skills Force project and the Changing Gears course.

Year 8 puils will have the opportunity to visit Tresaith on our residential three day course during the summer term. It will be a great opportuity for the pupils to socialise through the medium of the Welsh language outside the classroom.

The school is introducing a new praising scheme through Class Charts. Hopefully parents will be able to track the effort and homework of their children through the app. Year 8 will be piloting this scheme.

# Gair gan Pennaeth cynnydd Blwyddyn 9

Mae'r wythnosau diwethaf wedi bod yn gyfnod prysur, cyffroes a phwysig i flwyddyn 9. Mae'r cyfnod o ddewis opsiynau ar gyfer astudio pynciau TGAU ym mlwyddyn 10 wedi cychwyn! Yn ogystal, mae'r dysgwyr wedi bod yn gweithio'n galed i baratoi at eu harholiadau Haf sydd wedi bod yn digwydd dros gyfnod o bythefnos. Mi fydd Profion Cenedlaethol hefyd yn dechrau i flwyddyn 9 ar yr ail o Fai

It has been a busy and exciting time for Year 9. The period of choosing suitable and appropriate options for GCSE Year 10 has started. Pupils have been working hard preparing for their Summer examinations that were held over a fortnight. Beginning of May also is the time for the National Tests.

# Gair gan Pennaeth cynnydd Blwyddyn 10

Mae Blwyddyn 10 wedi bod yn gweithio'n ddiwyd dros y tymor diwethaf yn paratoi at eu harholiadau yn nhymor yr Haf. Bydd nifer ohonynt yn sefyll arholiadau allanol TGAU mewn ychydig wythnosau a dymunwn yn dda iawn iddyn nhw gyda'r gwaith paratoi.

Bu rhai o ddysgwyr Blwyddyn 10 yn ffodus iawn o gael ymweld â Gwlad yr Ia gyda'r Adran Ddaearyddiaeth dros y gwyliau a bu dysgwyr eraill yn brysur yn paratoi at gynhyrchiad yr ysgol o'r sioe "Dal Sownd". Braf yw nodi y bydd nifer o ddysgwyr Blwyddyn 10 yn rhan o'r sioe ac maent yn edrych ymlaen yn fawr at y profiad cyffrous!

Cynhaliwyd Diwrnod Gyrfaoedd i Flwyddyn 10 ar Ebrill 19eg. Daeth cyflogwyr, cynrychiolwyr o sefydliadau Addysg Bellach ac asiantaethau allanol i'r ysgol i gynnal diwrnod o weithgareddau gyda'r dysgwyr. Bwriad hyn oedd annog y dysgwyr i ddechrau meddwl am eu dyfodol. Bu'n brofiad gwerthfawr ac fe wnaethon nhw fwynhau'n fawr. Dywedodd Lewys Brill "Cefais fy ysbrydoli i feddwl am yr opsiynau eang sydd ar gael wedi i mi adael yr ysgol". Dywedodd Nathan Davies "Cawsom fewnolwg gwerthfawr ar sut i ddechrau busnes llwyddiannus ein hun".

Cafodd nifer o ddysgwyr Blwyddyn 10 lwyddiant yn Eisteddfod y Fenni yn ddiweddar. Enillodd Ioan Higgins a Morganna Davies 17 o wobrau rhyngddyn nhw yn y cystadleuthau gwaith cartref. Llongyfarchiadau mawr iawn iddynt hwy. Llongyfarchiadau hefyd i Megan Wood, Ioan Higgins, Georgina Belcher, Bronwen Clatworthy a Rowena Smith am eu llwyddiant yn y cystadlaethau llwyfan.

Pob hwyl i ddysgwyr Blwyddyn 10 yn ystod tymor yr haf a chyda'u harholiadau!

Year 10 pupils have been busily preparing for their summer examinations. <any will be sitting external GCSE papers in a few weeks. We wish them all the very best with their preparations.

A group of Year 10 pupils were very fortunate to have the chance to experience a trip to Iceland with the Geagraphy department. Pupils are also preparing for the production of 'Dal Sownd' and are eagerly looking forward to performing.
A Careers Day was held on April 19th. Various employers, representatives from Further Education institutions and outside agencies visited the school and held a day of activities. It was an effective activity that gave many the opportunity to think about their future options. To quote Lewys Brill 'I have been inspired to think about the various options that are available to me when I leave school.' Nathan Davies said 'We had a useful insight on how to start a successful business.'

Many Year 10 pupils were succesfull in Eisteddfod Y Fenni. Ioan Higgins and Morganna Davies won 17 prizes between them in the home work category. Congratulations also to Megan Wood, Ioan Higgisn, Georgina Belcher, Bronwen Clatworthu and Rowenna Smith on their success on the stage.

Good luck to all the Year 10 pupils with their forthcoming GCSE examinations.





## Gair gan Pennaeth cynnydd Blwyddyn 11

Gyda'r arholiadau yn dechrau cyn bo hir mae Blwyddyn 11 yn brysur yn adolygu. Mae llawer wedi bod yn brysur gyda'u gwaith cwrs. Llongyfarchiadau i bawb a fuodd yn rhan o'r Dathlu Llwyddiant ac i Ruby Bridges a Tegan Theobald a fu'n brysur yn canu yn yr eisteddfodau.
Rhaid llongyfarch hefyd Rhys Thomas y seiclwr a fu'n cynrychioli Cymru yng Ngwlad Belg yn ystod gwyliau'r Pasg gan ddod yn drydydd a churo Pencampwr Gwlad Belg! Bydd yn parhau a'r rasio cyn bo hir yn Ynys Manaw ac yn cynrychioli MnD Fusion RT. Dros yr wythnos nesaf hefyd bydd yn ymarfer yn Swydd Efrog gyda charfan Seiclo Prydain. Yn yr International Youth Tour (3 stage).

Year 11 are busy revising and completing course work. Congratulations to many pupils who received different accolades on the evening of 'Dathlu Llwyddiant' as well as Ruby Bridges and Tegan Theobald who have been singing in the eisteddfodau.

## Gair gan Pennaeth cynnydd Chweched Dosbarth

Yn ystod tymor y Gwanwyn, gwelwyd nifer o lwyddiannau a digwyddiadau ym mywydau blwyddyn 12/13. Daeth ymwelwyr i'r ysgol i gynnal cwrs Gyrru'n Ddiogel yn cynnwys yr heddlu, y frigid dan a hyfforddwyr gyrru i agor llygaid bl.12 at beryglon y ffordd fawr. Roedd yn brofiad defnyddiol a phwysig iawn i bob un.

Dathlwyd llwyddiant y disgyblion yn ein seremoni flynyddol a braf oedd gweld nifer o gyn-ddisgyblion yn dychwelyd i'r achlysur. Daeth rhai o'n cyn-ddisgyblion i'r ysgol i siarad gyda bl.12/13 am eu profiadau yn y brifysgol neu ar flwyddyn 'gap' oedd yn ddefnyddiol iawn i'r sawl a fanteisiodd ar siarad gyda nhw.

Gwelwyd llwyddiant mawr yn y maes chwaraeon wrth i Aneurin Owen ennill ei gap cyntaf dros ei wlad wrth chwarae rygbi yn erbyn Ffrainc a sgorio cais! Roeddem yn falch o glywed hefyd am lwyddiant Remi Adebiyi wrth iddo dderbyn y teitl "Grassroots Sports Personality" yng Ngwobrau Chwaraeon y South Wales Argus. Llongyfarchiadau mawr i'r ddau.

Braf oedd gweld llwyddiant academaidd nifer o ddisgyblion blwyddyn 13 wrth iddynt glywed y newyddion da am eu harholiadau ysgoloriaeth Aberystwyth. Llwyddodd Owain Baulch, Harriet Clarke, Alun Edwards, Iona Greenslade, Lyta Roberts-Jones, Cai Wright i sicrhau llefydd diamod gydag addewid ariannol petaent yn llwyddo i ennill graddau uchel, y bydden nhw'n cael £300 yn y flwyddyn gyntaf. Enillodd Vienna Robinson, Rhys Rudge, Shauna Sculley wobrau teilyngdod felly byddant yn cael cynnig diamod a £500 yn y flwyddyn gyntaf gyda'r arian yn dyblu i £1000 os byddant yn ennill graddau ABB. Ar ben hyn, cynigiwyd Bwrseri Rashid Domingo i Shauna Sculley i astudio Ffiseg ac Astudiaethau'r Gofod yn Aberystwyth gwerth £12,000! Llongyfarchiadau mawr i bawb.

Daeth dau o fyfyrwyr presennol Meddygaeth Prifysgol Caerdydd i siarad gyda rhai o ddisgyblion blwyddyn 12 i ddechrau ar gynllun Doctoriaid Yfory drwy gymorth y Coleg Cymraeg Cenedlaethol. Cafodd y disgyblion fudd mawr o'r sgwrs wrth glywed am brofiadau'r ddau fyfyriwr a thrafod cynnwys y cwrs Meddygaeth yng Nghaerdydd. Bydd y bartneriaeth hon yn parhau yn yr Hydref wrth i'n disgyblion gael cefnogaeth ganddynt wrth ymgeisio am le ar gyrsiau Meddygol.

Two contemporary Medical Students at Cardiff University held a talk with Year 12 pupils on the 'Future Doctors Scheme'  supported by Coleg Cymraeg Cenedlaethol.

During the spring term an effective and important driving course 'Gyrru'n Ddiogel' was held in school with police officers, the fire brigade and teaching instructors advising our pupils on the perils and dangers of the road.

The success of our Year 12/13 pupils were celebrated in the award ceremony evening 'Dathlu llwyddiant'. Some of our former pupils visited the school to give an insight into university life and their 'gap' year.

Aneurin Owen represented the Under 18s on the rugby field and scored a try against France. We also congratulate Remi Adebiyi on being awarded 'Grassroots Sports Personality' in the South Wales Argus Sports Awards.

A number o Year 13 pupils were successful in their scholarship examinations for Aberystwyth University. Owain Baulch, Harriet Clarke, Alun Edwards, Iona Greenslade, Lyta Roberts-Jones, and Cai Wright have received unconditional offers with a promise of £300 if they obtain high grades. Vienna Robinson, Rhys Rudge, and Shauna Sculley have secured places with an offer of £500 that would double to a £1000 if they gain an AAB. In addition Shauna Sculley has won the Rashid Domingo bursary to study Physics and Space Studies at Aberystwyth worth £12,000. Caongratulations to every one.

# Eisteddfota

Cynhaliwyd eisteddfod yr ysgol . Cafwyd cystadlu brwd rhwng y llysoedd. Enillwyd y gadair gan Alex Hoey o Fl 9 gyda Sophie Roberts Bl 10 yn ennill y goron.

Bu’r llwyfan yn brysur drwy’r dydd a chafodd pawb gyfle i fod ar y llwyfan.

Llys Llwyd a gipiodd y tlws ac roedd Mr Davies a’i holl ddisgyblion wrth eu bodd.

The school Eisteddfod was recently held where Ebwy, Llwyd, Rhymni and Wysg competed in a hard fought Eisteddfod.
The Chair was won by Alex Hoey Year 9. The Crown was won by Sophie Roberts Year 10.

The stage was busy throughout the day and everybody had a chance to compete.

Llwyd won the Eisteddfod under the direction of House leader Mr Marc Davies.





## Eisteddfod yr Urdd

Bu criw hefyd yn cystadlu yn eisteddfod yr Urdd gyda sawl un yn llwyddo i ennill lle yn y rownd nesaf sef y genedlaethol a gynhelir eleni ar safle'r Sioe yn Llanelwedd.

A number of pupils competed in the Urdd Eisteddfod gaining a place in the final round held this year at Llanelwedd Show ground.

**Unawd bechgyn/ Boy Solo: bl. 10-13:**
1af i James Merchant bl. 10

**Unawd allan o sioe gerdd/ Solo from a Musical:**
2il i Tegan Theobald bl. 11,
3ydd i Ruby Bridges bl. 11

**Unawd merched/ Girl's Solo:**
bl. 7-9: 1af i Isabella Green bl. 7
**Unawd bechgyn/ Boy's solo bl. 7-9:**
1af i Kai Fish bl. 9
2il i Isaac Smith bl. 7
**Deuawd/Duet: bl. 7-9:**
1af i Isabella Green ac Isaac Smith
2il i Kai Fish a Morgan Fish!





Bu criw hefyd yn cystadlu yn Eisteddfod y Fenni a chafwyd llwyddiant yno hefyd gyda Ioan Higgins,

A number of pupils competed at the Abergavenny Eisteddfod. Many were successful.

**Rowenna Smith, Bronwen Clatworthy, Megan Wood, Kai a Morgan, Georgina Belcher ac Ella yn cael llwyddiant mawr mewn eisteddfodd fywiog a chystadleuol.**

| Cystadleuaeth/Competition | Enw/ Name of competitor | Safle/position |
|---|---|---|
| Unawd piano oed 11-14 | Seren Howells | 3ydd |
| Unawd lleisiol oed 11-14<br>Solo | Kai Fish | 3ydd |
| Unawd piano oed 15-18 Piano | Bronwen Clatworthy | 1af |
| Unawd offerynnol agored oed 15-18<br>Musical instrument | Megan Wood<br>Georgina Belcher | 1af<br>3ydd |
| Ensemble lleisiol / offerynnol | Isabella Green ac Isaac Smith<br>Morgan Fish ac Kai Fish | 3ydd<br>1af |

# Chwaraeon

Mae atheltwyr a'r Adran Chwaraeon wedi bod yn brysur iawn ac wedi cael cryn lwyddiant mewn sawl gwahanol gamp.

Llongyfarchiadau i Erin Williams a lwyddodd I ennill yn gystadleuaeth Trampolining NDP 4 a synchro!

Athletes have been busy and there have been successes in more than one field.

Cole Lewis from Year 7 won the Wales Regional Finals in trampolining and now qualifies to compete in the British finals in Birmingham

Congratulations to Erin Williams Year 10 who also won the NDP4 and synchro.








Cafodd Aneurin Owen (Bl 12) ei ddewis eleni i chwarae Rygbi dros Gymru dan 18 yn safle'r canolwr. Chwaraeodd y pedair gem. Curwyd yr Alban o 32 – 30. Colli oedd yr hanes yn erbyn Ffrainc o 22-14. Curwyd Iwerddon o 36 – 28 a chwalwyd yr Eidal o 27 – 15.
Dwedodd Aneurin 'Roedd yn brofiad gwych. Cael aros mewn gwesty am wythnos o baratoi. Cael bod yn rhan o strwythur da ac amgylchedd proffesiynol. Dysgwyd sut oedd addasu steil o chwarae yn erbyn y gwrthwynebwyr a braf oedd cael hyffroddwyr gwahanol. Dwi'n gobeithio yn awr cael fy newis ar gyfer taith i Dde'r Affrig yn yr haf.'

Aneurin Owen (Year 12) was chosen to play Rugby for Wales under 18s. He played in the 4 games. A victory against Scotland 32-30 was a great result. Wales lost 22-14 to a physical French team. Ireland were beaten 36-28 as well as the Italians 27 – 15.
Aneurin said 'It was a tremendous experience. Staying in a hotel for a week preparing for the games. Everything was so well run, good professional atmosphere. I learnt so much. We were taught how to change our system of play and it was great to have different coaches. I hope now that I will be picked for the South African tour in the summer.'

# Ysgol Gyfun Gwynllyw

Newyddlen 5 // Newsletter 5

Mai 2018 //May 2018

## Dathlu Llwyddiant

Cynhaliwyd Noson Dathlu Llwyddiant. Croesawyd nifer o gyn ddisgyblion yn ol a chafwyd cyfle gwych i wobrwyo cymaint o'n disgyblion am eu cyrhaeddiad Academaidd a Chymdeithasol. Gweler fwy o luniau ar wefan yr ysgol

A number of past pupils were welcomed back to this special evening where past and present pupils were awarded for their achievements. There are more pictures to see on the school website




## Ehangu Gorwelion / Scholars Programme

Bu criw o Fl 10 ar wibdaith i Brifysgol Bryste i seremoni raddio yn dilyn eu cwrs o ddatblygu eu sgiliau ymchwilio. Cafwyd profiad arbennig gyda chyflwyniad difyr ac addysgiadol gan y Brifysgol.

Year 10 pupils attended Bristol University on the Scholars Programme and took part in the graduation ceremony. Everyone enjoyed the experience and were given a guided tour and an educational talk.



# Ysgol Gyfun Gwynllyw

Newyddlen 5 // Newsletter 5

Mai 2018 //May 2018

## Yr Adran Gymraeg

Llwyddodd Bl 10 i drefnu tri thim ar gyfer cystadleuaeth Siarad Cyhoeddus yr Urdd. Cynhaliwyd y rownd gyntaf ym Mae Caerdydd. Llongyfarchiadau i'r panelwyr! Trefnwyd sawl gwibdaith dros yr wythnosau diwethaf.

Three teams form Year 10 competed in the Urdd Debating Competition. It was held in Cardiff Bay. Congratulations to all the panellists.



## Yr Adran Daearyddiaeth

Aeth criw gyda'r Adran Ddaearyddiaeth i Wlad yr Iâ. Cafwyd amser gwych yno a dysgwyd llawer am ddaearyddiaeth yr ynys hynod hon.

The Geography Department visited Iceland. An excellent time was had by all



# Yr Adran Ddrama

Mae 'na fwrlwm ymysg cast a chriw Dal Sownd wrth i'r ymarferion cychwyn o ddifri. Amy Taylor o Fl.13 bydd yn chwarae'r prif gymeriad - Tracy Turnblad yn y sioe ac meddai "Mae'n freuddwyd cael chwarae un o fy hoff gymeriadau erioed yn fy mlwyddyn olaf yng Ngwynllyw. Rydw i wedi bod yn gwarando ar ganeuon Hairspray ers i mi fod yn fach, ac nawr gaf i gyfle i ddod a'r cymeriad yn fyw o flaen gynulleidfa."
Bydd y sioe yn cael ei pherfformio yn Theatr y Congress, Cwmbran 17-19eg o Orffennaf.
Os hoffech noddi'r cynhyrchiad, cysylltwch a'r ysgol.

Enthusiasm and excitement is brewing as the rehearsals for the forthcoming musical Dal Sownd is gaining in momentum. Amy Taylor Year 13 will be in the leading role of Tracy Turnblad. 'It is a dream come true being able to portray one of my favourite characters in my last year at Gwynllyw. I have been listening to the Hairspray songs ever since I was young.'
The show will be performed at the Congress Theatre, Cwmbran, on 17-19th July. If you would like to support the production by becoming a sponsor please get in touch.



# Ysgol Gyfun Gwynllyw

Newyddlen 5 // Newsletter 5

Mai 2018 //May 2018

## Yr Adran Ieithoedd Modern

Aeth 17 o ddisgyblion bl 9 i seremoni wybrwyo yn Neuadd y Ddinas Caerdydd ar y 23ain o Fawrth ynghyd â 15 o ysgolion uwchradd eraill o De Ddwyrain Cymru. Dyma'r 3ydd flwyddyn i'r ysgol fod yn rhan o'r prosiect, sydd newydd ennill gwobr Cwpan Thelford am hybu ITM yng Nghymru. Derbynniodd disgyblion dystysgrif am gymryd rhan yn y prosiect mentora ITM ac yna cawsant flas ar fywyd Prifysgol gyda taith o gwmpas prif adeiladau'r Brifysgl a chinio cyn dychwelyd i'r ysgol yn y prynhawn.
Edrychwyn ymlaen at gymryd rhan yn y prosiect unwaith eto y flwyddyn nesag gan fod cynrychiolydd o Lywodraeth Cymru wedi cyhoeddi yn y seremoni y bydd y prosiect yn cael ei ariannu ganddynt y flwyddyn nesaf oherwydd ei lwyddiant ysgubol.

17 Year 9 students travelled to the MFL Mentoring Project awards ceremony in Cardiff City Hall on the 23rd of March along with 15 other secondary schools from South East Wales. This is the 3rd year that the school has been part of the project, which has just won the prestigious Thelford Cup award for promoting MFL in Wales. Students received their certificates for their participation in the MFL mentoring project and were then given a taste of University life with a tour of the University buildings and lunch before returning to school in the afternoon.
We look forward to continuing our participation once again next year as it was announced in the ceremony that the Welsh Government will provide further funding next year due to the success of the project.

### Gweithdy ITM bl 9 Prifysgol Caerdydd Workshop

Cafodd 5 disgybl o fl 9 wahoddiad i gymryd rhan mewn gweithdy ITM ym Mrhifysgol Caerdydd ar y 27ain o Fawrth. Cawsant y cyfle i gymryd rhan mewn carousel o weithgareddau trawscwricwlaidd megis Celf a Gwyddoniaeth drwy ddefnyddio Ieithoedd Tramor. Roedd y cyfle yma wedi codi ohwerwydd llwyddiant ein disgyblion yn y prosiect Mentora ITM.

5 Year 9 pupils were invited to participate in a MFL workshop at Cardiff University on the 27th of March. Students had the opportunity to participate in a carousel of cross-curricular activities such as Art and Sciences while using a Foreign Language. This invitation was extended to us because of our students success in the MFL Mentoring project.






# Yr Adran Hanes

Menter Ysgolion y Dreftadaeth Gymreig: Diolch i Bill Kittrigde am arwain prosiect 'Gwynllyw a'r Ail Ryfel Byd'. Bu ef, Scott Simpson , Lauren Underwood ac Archie Morgan yn cael eu cyfweld gan ddau o feirniaid y gystadleuaeth. Rhaid aros tan fis Mai i gael gwybod y canlyniad. Yn y cyfamser, hoffem eich hannog i gwblhau holiadur ar yr Ail Ryfel Byd fel bod Bill a'r tîm yn gallu parhau gyda'r prosiect. Gallwch weld y canlyniadau ar gyfrif twitter yr adran sef:@adranhanesygg.

Llongyfarchiadau i Alex Round o Flwyddyn 13 ar lwyddo yn ei chais i fynychu cynhadledd yn yr Almaen ym mis Mehefin ar y thema 'Darganfod ein lle mewn Hanes'. Edrychwn ymlaen at glywed ei hanes.
Taith Auschwitz: Diolch am eich cefnogaeth i'r daith. Nodyn byr i'ch hatgoffa am y taliadau ac i'ch hannog i ymuno gyda'r cyfrif twitter sef: @TaithAuschwitz

Welsh Heritage Schools Initiative: Thank you to Bill Kittridge for leading the project 'Gwynllyw and the Second World War'. He and Scott Simpson, Lauren Underwood and Archie Morgan were interviewed by two adjudicators. The result will be announced in May. In the meantime we would like to encourage you to fill in the questionnaire about the Second World War so that Bill and the team can proceed with the project. The result can be viewed on the departments Twitter account : @adranhanesygg

Congratulations to Alex Round Year 13 who has succeeded in her application to attend the conference in Germany in June on the theme 'Finding our place in History.' We look forward to hearing about the conference.'

Auschwitz Trip: Thanks for all the support. Remember the payments and to join and follow the Twitter account: @Taith Auschwitz



## Yr Adran Saesneg

Cynhaliwyd y rownd rhanbarthol yn Siambrau Cyngor Merthyr gyda thimau o Lanfair ym Muallt, Aberdar, ac eraill ar draws y Cymoedd.
Rhoddwyd i bob ysgol destun gwahanol a deg munud iddynt gyflwyno eu dadleuon dros ac yn erbyn. Amrywiai'r testunau o hela i anifeiliaid y syrcas a bridio cwn peryglus. Testun Gwynllyw oedd a ddylid gwahardd llad anifeiliaid sydd heb gael eu tawelu. Er difrifoldeb y testun, perfformiodd y tim yn glodwiw gan ymchwilio a pharatoi yn hyderus
Cyflwynodd Ella Mai Green a Chase Blount yn dadleuon yn huawdl ar wahardd yr arfer fel un creulon. Cyflwynodd Kai Fish a Tia Goodwin yr ochr arall gan bwysleisio y diffygion y system a'r arfer.
Cefnogwyd y paratoi gan Finley Hawkins a Pip Touhig gan amseru yr areithiau dro ar ol tro. Er na llwyddwyd i fynd drwodd i'r rownd nesaf cafwyd canmoliaeth uchel gan y cynghorwyr.
Derbyniodd y myfyrwyr gwdyn cydnabyddiaeth ac mae pawb yn edrych ymlaen am barhau gyda'r Clwb Trafod.



The event was the Rspca great debate and our regional round was held at Merthyr Council Chambers with schools from Builth Wells, Aberdare and across the valley on 23rd March.
Each school was given a different topic and 10 minutes to present arguments for and against. Topics ranged from fox hunting, circus animals, dangerous dog breeds and our topic was whether to ban non stunned slaughter. Quite a gruesome subject but our team did some fantastic research and were not fazed by the difficulty at all.
Chase Blount and Ella Mai Green spoke eloquently on banning non stunned slaughter as an inhumane practice, but Kai Fish and Tia Goodwin gave an impressive counter argument that actually, many animals are mistreated in stunned slaughter factories because there is not good enforcement of regulations. Supporters Finley Hawkins and Pip Touhig helped the team to prepare and timed their speeches endlessly - this paid off because we came in at just under 10 minutes on the day. We were not selected to go through but councillors commented on the difficulty of our topic and how well our students had handled it.
All students received a goody bag and we look forward to continuing Debate Club as everyone has enjoyed it so much.

## Adran Y Gyfraith

Yn ogystal â'u cwrs Safon Uwch, mae disgyblion y Gyfraith Blwyddyn 12 a 13 wedi derbyn y cyfle i ymarfer eu sgiliau eiriolaeth yn ystod y tymor diwethaf.
Mae Blwyddyn 12 wedi cymryd rhan mewn ffug sesiynau negodi, yn trafod atebolrwydd i hawliadau esgeulustod.

Mae Blwyddyn 13 wedi cynnal cystadlaethau ymryson (dadlau yn null y llysoedd uwch) a gwrandawiadau Ple i Liniaru er mwyn helpu panel Ynadon i ddyfarnu ar y ddedfryd gywir.
Mae'r disgyblion wedi mwynhau'r gallu i roi eu hastudiaethau mewn ymarfer, yn ogystal â gwisgo'r gŵn ac wig.

Mae'r Adran wedi dechrau blog newydd sy'n dadansoddi newidiadau presennol yn y Gyfraith trwy gyfrwng y Gymraeg. Darpara'r blog gyfle cyffrous i'r disgyblion arddangos eu gwaith gorau a'u diddordeb yn y pwnc. Rydych yn gallu ffeindio'r blog ar https://goo.gl/eM4LdY

In addition to their A' Level course, the Law students in Years 12 and 13 have been provided with the opportunity to develop their advocacy skills during the past term.
Year 12 have taken part in mock negotiation sessions to discuss liability in negligence claims.

Year 13 have conducted moots (higher court-style debates) and Plea in Mitigation hearings to help the magistrate panel to decide on the correct sentence.
The students have enjoyed the ability to put their studies into practice as well as trying out the wig and gown.

The Department has started a new blog which analyses current changes in the law through the medium of Welsh. The blog provides an exciting opportunity for the pupils to display their best work and their interest in the subject. You may find the blog on https://goo.gl/eM4LdY





Adolygiad y Gyfraith, Ysgol Gwynllyw

Croeso!

Croeso i flog Adran y Gyfraith YGG. Erthyglau gan ddisgyblion ac athrawon ynglyn a'r gyfundrefn gyfreithiol Lloegr a Chymru.

adran y gyfraith

Welcome to YGG Law Department's blog. Articles from pupils and teachers regarding the English and Welsh legal system.

Dilynwch @athrocyfraith ar Drydar / Follow @athrocyfraith on Twitter.

GWERTHUSO'R BUDDION I GYTUNDEBAU FFI AMODOL

Miss A. Round (6.3.18)

[CBAC - LA1.8 Mynediad at Gyfiawnder]

*Cyflwyniad*

Cafodd cytundebau ffi amodol eu creu gan Ddeddf y Llysoedd a Gwasanaethau Cyfreithiol 1990 a datblygodd gyda'r Ddeddf Mynediad at Gyfiawnder 1999 (AJA 1999). Gall cyfreithiwr gytuno i gymryd dim ffi (neu ffi llai) os oedd yn colli, neu godi ei ffi o ganran y cytunwyd arni os yw'n ennill. Roedd y collwr yn talu costau'r enillwr a'r codiad a phremiwm yswiriant os fydd y llys yn rhoi gorchymyn i wneud hynny. Ond fel ganlyniad y Ddeddf Cymorth Cyfreithiol, Dedfrydu a Chosbi Troseddwyr 2012 (LASPO 2012), yn bresennol mae dim ond angen talu'r costau nawr. Hefyd, dan AJA 1999, nid yw cytundebau ffi amodol ar gael i achosion esgeulustod meddygol.

Enghraifft o achos yn delio â chytundeb ffi amodol yw Coventry v Lawrence (Rhif 2) (2014). Roedd y perchenogion tŷ wedi ennill hawliad am yswiriant yn erbyn busnes bach a oedd yn rhedeg trac rasio swnllyd ger eu cartref. Roedd yr hawliad werth £74,000, ond roedd y gorchymyn costau yn erbyn y busnes y £640,000; awgrymodd y Goruchaf Lys y gallai trefniadau costau ar gyfer cytundebau ffi amodol fynd yn groes i hawl y diffynnydd i gael treial teg. Mae'n rhaid i ddiffynyddion yn colli eu hachos dalu ffi llwyddiant y

## Wythnos Ymwybyddiaeth Awtistiaeth 2018

Hoffwn i longyfarch a diolch i chi gyd am eich gwaith caled ac ymroddiad i godi ymwybyddiaethawtistiaeth yn ystod yr wythnos olaf tymor. Pleser oedd gweld gymaint o ddisgyblion a staff yn mwynhau eu hunain yn ystod y gweithgareddau er mwyn codi arian ar gyfer rhywbeth mor bwysig i ni fel ysgol a chymuned. Codwyd yr arina trwy'r gweithgareddau canlynol:

I would like to congratulate and thank everyone for their hard work and dedication to raise awareness of Autism during the last week of the Spring term. It was a pleasure to see so many pupils and staff enjoying themselves and supporting the venture through so many activities including:

- Twrnament Pel Droed/football tournament
- Sesiwn Harddwch/ Beauty Session
- Gweithdy Lego/ leggo Workshop
- Garddio gyda Pwyllgor ECO / Gardening with the Eco Committee
- 'Just Danceathon"
- Twba Lwcus/ Lucky Dip
- Faint o losin sydd yn  y jar? / Guess how many sweets?
- Raffl
- Photobooth
- Stondin Cacennau/ Cake stall

Rydym ni fel ysgol wedi codi £400 sydd yn ffantastig! Diolch yn fawr iawn i bawb! £400 was raised.




